
PWYLLGOR PENODI PRIF SWYDDOGION DYDD IAU, 27 MEHEFIN 2019

Yn bresennol: Y Cyngorwyr: Eryl Jones-Williams, Alwyn Gruffydd, Annwen Hughes, Peredur Jenkins, Eric M. Jones, Cai Larsen, Dafydd Meurig, Dewi W Roberts, Angela Russell a Gethin Glyn Williams

Hefyd yn Bresennol: Dilwyn Williams (Prif Weithredwr) Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Eurig Williams (Rheolwr Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau).

1. ETHOL CADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Dafydd Meurig yn Gadeirydd am 2019/20.

2. ETHOL IS-GADEIRYDD

PENDERFYNWYD ethol y Cyngorydd Alwyn Gruffydd yn Is-gadeirydd am y cyfnod 2019/2020

3. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cyngorwyr R Medwyn Hughes, R Glyn Daniels, Selwyn Griffiths, Mair Rowlands a Dyfrig Siencyn

4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Dim i'w nodi

5. MATERION BRYD

Dim i'w nodi

6. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14.02.19 fel rhai cywir

7. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD cau'r wasg a'r cyhoedd allan o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, Rhan 4, Atodiad

12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972. Mae'r paragraff yma yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am unigolion penodol sydd â hawl i breifatrwydd. Nid oes unrhyw fudd cyhoeddus sydd yn galw am ddatgelu gwybodaeth bersonol am yr unigolion yma. O ganlyniad mae'r budd cyhoeddus yn disgyn o blaid cadw'r wybodaeth yn eithriadig.

8. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL

Amlygwyd pryder gan aelod yn nifer y ceisiadau ar gyfer swyddi allweddol ac awgrymwyd y dylid hysbysebu yn allanol er mwyn ceisio mwy o ddiddordeb. Mewn ymateb, nododd y Prif Weithredwr bod hwn yn rhan o'r broses o gyflawni arbedion ac na fyddai modd gwneud hynny pe byddem yn mynd tu allan i'r Cyngor i benodi. Ar ben hynny roedd angen cydnabod a rhoi cyfleoedd i staff y Cyngor ac roedd yn hyderus fod yna ddeunydd yn y ceisiadau fyddai'n gwneud Pennaethiaid da.

Adroddodd y Cadeirydd bod un cais wedi ei dderbyn am y swydd oedd wedi ei hysbysebu yn fewnol yn unig.

Trafodwyd y cais yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddau.

PENDERFYNWYD BOD YR YMGEISYDD YN GYMWYS I'W ROI AR Y RHESTR FER

9. LLUNIO RHESTR FER AR GYFER PENODI PENNAETH TAI AC EIDDO

Nododd y Prif Weithredwr ei fod wedi cynnal adolygiad o drefniadau rheolaethol y Cyngor er mwyn ceisio cyfarch arbedion effeithlonrwydd. I wireddu'r amcanion hynny, a dymuniad y Cabinet i roi blaenoriaeth i'r Strategaeth Tai, penderfynwyd creu Adran Tai ac Eiddo. Byddai'r Pennaeth llwyddiannus yn arwain ar brosiectau o adeiladu tai ar gyfer pobl Gwynedd.

Adroddodd y Cadeirydd bod dau gais wedi ei dderbyn am y swydd, oedd wedi ei hysbysebu yn fewnol yn unig.

Trafodwyd y ceisiadau yn unol â gofynion y swydd gan ganolbwyntio ar y prif gymwyseddau.

PENDERFYNWYD BOD YR YMGEISWYR YN GYMWYS I'W RHOI AR Y RHESTR

FER

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â chostau cynnal canolfan asesu, cadarnhaodd y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol nad oedd costau'r Ganolfan asesu yn cael eu cyfrifo ar sail cost y pen. Nododd y Prif Weithredwr bod cynnal canolfan asesu yn greiddiol i broses penodi Pennaethiaid er mwyn sicrhau ansawdd a derbyn barn annibynnol. Byddai cost dod i benderfyniad anghywir lawer uwch i drigolion

Gwynedd. Ategwyd bod y darparwr gwreiddiol, a oedd yn cynnal gwasanaeth yn y Gymraeg, bellach wedi ymddeol. O ganlyniad, adroddwyd y byddai trefniant newydd yn cael ei brofi drwy ddefnyddio cwmni allanol i gynnal y profion seicometreg a threfniant mewnol ar gyfer cynnal y ganolfan asesu ei hun.

Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor bod cyflog y swydd Pennaeth Tai ac Eiddo newydd wedi'i harfarnu ar lefel HS2 drwy ddefnyddio system Hay, sef yr un system a ddefnyddir ar gyfer arfarnu pob swydd ar lefel Pennaeth ac uwch.

Cytunwyd i gyflwyno argymhellid i gyfarfod o'r Cyngor llawn ar y 18fed o Orffennaf yn datgan y dylid sefydlu cyflog y swydd ar raddfa HS2 a bod y Polisi Tâl ar gyfer 2019-20 yn cael ei addasu i adlewyrchu hynny.

Dechreuodd y cyfarfod am 11.00 y.b. a daeth i ben am 11.55 y.b.

CADEIRYDD